COFNOD O BENDERFYNIAD CYFARFOD O'R CABINET A GYNHALIWYD REMOTELY - VIA MICROSOFT TEAMS AR DYDD MAWRTH, 14 MEHEFIN 2022 14:30

Presennol

Y Cynghorydd HJ David – Cadeirydd

| | | | |
|---|---|---|---|
| JPD Blundell | N Farr | W R Goode | JC Spanswick |
| HM Williams | | | |

Ymddiheuriadau am Absenoldeb

J Gebbie

Swyddogion:

Ellams (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Pwyllgorau), Harvey (Cyfarwyddwr Corfforaethol – Addysg a Chymorth i Deuluoedd), R Keepins (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd - Craffu), Lord (Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid), Nightingale (Cyfarwyddwr Corfforaethol - Cymunedau), M Pitman (Swyddog Gwasanaethau Democrataidd – Pwyllgorau), M Shephard (Prif Weithredwr) a/ac K Watson (Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Rheoleiddio)

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Prosiectau Blaenoriaeth y Gronfa Ffyniant Bro |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>• Yn nodi'r trosolwg a'r diweddariad ar y broses ymgeisio gysylltiedig â'r Gronfa Ffyniant Bro.<br><br>• Yn cymeradwyo'r prosiectau a gynigiwyd gan swyddogion i'w cyflwyno yn rownd dau o raglen y Gronfa Ffyniant Bro.<br><br>• Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr y Cymunedau i drafod â'r Swyddog Adran 151 er mwyn cytuno ar gyfanswm amcangyfrifedig costau'r prosiect i'w gyflwyno o fewn y ceisiadau.<br><br>• Yn cymeradwyo adrodd yn ôl i'r Cabinet a'r Cyngor maes o law am y goblygiadau ariannol yn y dyfodol cyn derbyn unrhyw arian grant.<br><br>• Yn derbyn adroddiad yn y dyfodol ar ddatblygiad bid ar gyfer Etholaeth Ogwr. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Pen-y-bont ar Ogwr Carbon Sero Net – Arddangosydd Technoleg Hydrogen |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet:-<br><br>1. Yn nodi'r cynnydd i ddatblygu; Pen-y-bont ar Ogwr Carbon Sero Net – Prosiect Arddangosydd Hydrogen<br><br>2. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, i weithio gyda Chorfforaeth Marubeni i ddatblygu'r Prosiect Arddangosydd Hydrogen a thrafod telerau'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a'u rhoi yn y ddogfen.<br><br>3. Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau, mewn ymgynghoriad â'r Prif Swyddog - Cyllid, Perfformiad a Newid a'r Prif Swyddog – Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol, i gomisiynu cyngor arbenigol gan ddefnyddio adnoddau fydd ar gael gan Gronfa wrth gefn wedi ei chlustnodi Cyfarwyddiaeth y Cymunedau (EMR) 2022-23 ar gyfer gweithredu Strategaeth Ddatgarboneiddio Pen-y-bont ar Ogwr 2030 o gyllideb Cyfarwyddiaeth y Cymunedau fel bo angen ac adrodd yn ôl wrth y Cabinet ynghylch cynnig llawn y prosiect.<br><br>4. Yn nodi y derbynnir adroddiad pellach yn dilyn diwedd cyfnod y Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth i ystyried hyfywedd manwl y prosiect. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |

| | |
|---|---|
| | 14 Mehefin 2022 |
| | |
| | Fe wnaeth y Cynghorydd H Williams ddatgan buddiant yn yr eitem hon am ei fod yn ymgeisydd ar gyfer un o’r seddi gweigion yn Ysgol Gynradd Abercerdin yn yr adroddiad ac aeth allan o’r cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei thrafod.<br><br>Fe wnaeth y Cynghorydd N Farr ddatgan buddiant yn yr eitem hon am ei bod hi’n cystadlu am un o’r seddi gweigion yn Ysgol Gyfun Porthcawl yn yr adroddiad ac aeth allan o’r cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei thrafod.. |
| | Cyfreithiol a Chyllid a’r Aelod perthnasol o’r Cabinet . |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Canlyniad yr Hysbysiad Statudol a gyhoeddwyd ynghylch Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig |
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cabinet:<br><br>• Nodi canlyniad yr hysbysiad statudol a gyhoeddwyd ynghylch ehangiad arfaethedig Ysgol Gynradd Mynydd Cynffig fel y manylir yn yr Adroddiad am Wrthwynebiadau (Atodiad A i’r adroddiad);<br>• Cymeradwyo cyhoeddi’r Adroddiad am Wrthwynebiadau;<br>• Penderfynu gweithredu’r cynnig gan ddod i rym o ddechrau tymor yr hydref 2025;<br>• Cymeradwyo llunio a chyhoeddi llythyr am y penderfyniad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a’r Aelod perthnasol o’r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Canlyniad y Broses Ymgynghori ynghylch Ysgol Heronsbridge |
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cabinet:<br><br>• Nodi canlyniad yr ymgynghoriad ag ymgyngoreion rhagnodedig, fel y manylir yn yr Adroddiad Ymgynghori a’r atodiadau cysylltiedig;<br>• Cymeradwyo cyhoeddi’r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A i’r adroddiad eglurhaol); ac<br>• Awdurdodi cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Y Rhaglen Moderneiddio Ysgolion – Canlyniad Proses Ymgynghori Ysgol Gymraeg Bro Ogwr |
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cabinet:<br><br>• Nodi canlyniad yr ymgynghoriad ag ymgyngoreion rhagnodedig, fel y manylir yn yr Adroddiad Ymgynghori a'r atodiadau cysylltiedig;<br>• Cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A i'r adroddiad);<br>• Cymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Canlyniad yr Ymgynghoriad i Agor Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) ar gyfer Disgyblion ag Anawsterau Dysgu Canolig (ADC) yn Ysgol Cynwyd Sant |
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cabinet :<br><br>• Nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â diddordeb fel y manylir yn yr Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig (cyfeirier at Atodiad A) a'r atodiadau;<br>• Cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori (yn Atodiad A); ac<br>• Awdurdodi cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet . |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Canlyniad yr Ymgynghoriad i Agor Darpariaeth ar gyfer Disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) Sefydlu Canolfan Adnoddau Dysgu (CAD) ar gyfer Disgyblion ag Anhwylder ar y Sbectrwm Awtistig (ASD) yn Ysgol Gynradd Tremaen |
| Y penderfyniad a wnaed | Fe wnaeth y Cabinet :<br><br>• Nodi canlyniad yr ymgynghoriad â phartïon â diddordeb fel y manylir yn yr Adroddiad Ymgynghori cysylltiedig (cyfeirier at Atodiad A) a'r atodiadau;<br>• Cymeradwyo cyhoeddi'r Adroddiad Ymgynghori (Atodiad A i'r adroddiad); ac<br>• Awdurdodi cyhoeddi hysbysiad statudol ynghylch y cynnig. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Dyddiadau Arfaethedig ar gyfer Cyfarfodydd y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor Magu Plant Corfforaethol y Cabinet |
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd bod y Cabinet yn cymeradwyo Rhaglen dyddiadau'r cyfarfodydd ar gyfer y Cabinet, Pwyllgor Cydraddoldeb y Cabinet a Phwyllgor Magu Plant Corfforaethol y Cabinet, fel yr amlinellir ym mharagraff 4.1 yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |

| | |
|---|---|
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a’r Aelod perthnasol o’r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cynrychiolaeth ar Gyrff Allanol a Chydbwyllgorau |
| Y penderfyniad a wnaed | Penderfynwyd bod y Cabinet yn penodi’r nifer gofynnol o Aelodau ar gyfer y cydbwyllgorau a chyrff allanol eraill fel y’u rhestrwyd yn Atodiad 1 yr adroddiad (enwau cynrychiolwyr unigol i gael eu hychwanegu i’r rhestr a phan fydd wedi ei chwblhau, y rhestr i gael ei chylchredeg i’r holl Aelodau a’i chyhoeddi). |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a’r Aelod perthnasol o’r Cabinet |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Eitemau Brys |
| Y penderfyniad a wnaed | Nid oedd eitemau brys. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Gwahardd y Cyhoedd |
| Y penderfyniad a wnaed | O dan Adran 100A(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 fel y’i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007, gwahardd y cyhoedd o’r cyfarfod tra’n ystyried yr eitemau busnes canlynol gan eu bod yn cynnwys gwybodaeth sydd wedi ei heithrio fel y'i diffinnir ym Mharagraff 12 o Ran 4 a/neu Baragraff 21 o Ran 5 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.<br>Yn dilyn cymhwyso prawf lles y cyhoedd, penderfynwyd, yn unol â’r Ddeddf y cyfeiriwyd ati uchod, i ystyried yr eitemau canlynol yn breifat, gyda’r cyhoedd wedi eu gwahardd o’r cyfarfod, gan yr ystyrid o dan yr holl |

| | |
|---|---|
| | amgylchiadau yn ymwneud â’r eitemau, bod lles y cyhoedd o gadw'r eithriad yn drech na'r lles cyhoeddus o ddatgelu'r wybodaeth, oherwydd y byddai'r wybodaeth yn niweidiol i'r ymgeiswyr a grybwyllwyd felly. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo Cofnodion a Eithriwyd |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y cofnodion a eithriwyd yn y cyfarfod dyddiedig 08/03/2022 yn cael eu cymeradwyo fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |

| | |
|---|---|
| Teitl yr Adroddiad | Cymeradwyo’r Cofnodion |
| Y penderfyniad a wnaed | Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Cabinet a gynhaliwyd ar 8 Mawrth 2022, fel cofnod gwir a chywir. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |

| | |
|---|---|
| | Alldro'r Gyllideb Refeniw 2021-22 |
| Y penderfyniad a wnaed | Nododd y Cabinet sefyllfa alldro'r refeniw ar gyfer 2021-22 ac argymhellodd fod y Cyngor yn cymeradwyo'r trosglwyddiadau rhwng £100,000 a £500,000 fel yr amlinellwyd ym mharagraff 4.1.15 yr adroddiad. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Dim |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |
| Teitl yr Adroddiad | Diweddariad ar y Rhaglen Gyfalaf |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet wedi cytuno i'r Rhaglen Gyfalaf ddiwygiedig (Atodiad A i'r Adroddiad) gael ei chyflwyno i'r Cyngor i'w chymeradwyo. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | 14 Mehefin 2022 |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | Fe wnaeth y Cynghorydd JP Blundell ddatgan buddiant oedd yn rhagfarnu yn yr eitem hon am ei fod yn llywodraethwyr yr Awdurdod Addysg Lleol yn Ysgol Gyfun Bryntirion a grybwyllir yn yr Adroddiad ac aeth allan o'r cyfarfod tra roedd yr eitem hon yn cael ei hystyried. |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | Cyfreithiol a Chyllid a'r Aelod perthnasol o'r Cabinet |
| Teitl yr Adroddiad | Swydd yn y Gwasanaeth Ailgylchu a Gwastraff 2024 |
| Y penderfyniad a wnaed | Bod y Cabinet:<br><br>(1) Yn rhoi awdurdod i'r swyddogion symud ymlaen i ofyn am wahoddiadau i dendro ar gyfer darparu'r contract gwastraff cyfnod byr rhwng 2024 a 2026.<br><br>(2) Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ar y cyd â'r Swyddog Adran 151 a'r Prif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i drafod gyda Kier a chytuno ar y gost derfynol ar gyfer caffael y cerbydau a'r peiriannau a'r offer gan Kier i gyflawni'r gwasanaeth ailgylchu a gwastraff.<br><br>(3) Yn dirprwyo awdurdod i Gyfarwyddwr Corfforaethol y Cymunedau ar y cyd â'r Swyddog Adran 151 a Phrif Swyddog Gwasanaethau Cyfreithiol a Rheoleiddiol, Adnoddau Dynol a Pholisi Corfforaethol i drafod telerau gyda Kier i newid cyflenwad tanwydd ar gyfer y fflyd bresennol o gerbydau ailgylchu a gwastraff a'r |

| | |
|---|---|
| | peiriannau i HVO - tanwydd sy'n deillio o olew llysiau hydrogenaidd.<br><br>(4) Yn nodi yr adroddir am y goblygiadau ariannol yn y dyfodol wrth y Cabinet a'r Cyngor maes o law.<br><br>(5) Yn rhoi awdurdod i swyddogion i ddechrau gwaith ar fodel y gwasanaeth gwastraff yn y dyfodol, comisiynu cyngor arbenigol os oes angen ac adrodd yn ôl wrth y Cabinet am y model gwasanaeth newydd fel y'i datblygwyd. |
| Dyddiad gwneud y penderfyniad | |
| Rhesymau dros y penderfyniad hwnnw | |
| Buddiannau personol a ddatgelwyd | |
| Ymgynghoriad a gynhaliwyd cyn y penderfyniad | |